

DOGFEN SAFBWyNT

Ar 29^{ain} Tachwedd, fe lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynlluniau i gyflwyno cyfarwyddyd statudol newydd ar wisg ysgol yng Nghymru.

Gan gynrychioli'r diwydiant gwisg ysgol-benodol ledled y DU, mae'r gymdeithas yn cefnogi gweithgynhyrchwyr, dosbarthwyr a manwerthwyr. Mae'n credu y gallai'r rheoliadau arfaethedig gael effaith niweidiol ar lawer o'r busnesau annibynnol hyn, sydd weithiau'n cael eu rhedeg gan deuluoedd.

Beth fyddai'r newid yn ei olygu?

Bydd yn rhaid i ysgolion a'u cyrff llywodraethu ail-werthuso eu polisiau ynghylch wisg ysgol - yn arbennig, sut y gallant leihau'r gost.

- Gallai newidiadau olygu bod llawer o ysgolion yn cael eu cyfyngu i wisg ysgol sy'n cynnwys dillad a lliwiau sylfaenol yn unig.
- Gallai'r newid olygu bod rhaid gofyn a oes angen logos ar wisg ysgol - a chredwn fod eu hangen. Wrth symud i fwrdd o ddyluniadau brodiog o ansawdd uchel, gallai hunaniaeth ysgol gael ei lleihau i fathodyn wedi'i gwno neu wedi'i lynu ar unrhyw ddilledyn.

Â'r cyfnod ymgynghori wrthi erbyn hyn, bydd The Schoolwear Association yn gwrthwynebu'r newid arfaethedig, yn seiliedig ar y pwyntiau dilynol.

Ni fydd ysgolion yn cael dweud eu dweud bellach

- Bydd ysgolion yn gweld bod eu dewis o wisgoedd ysgol wedi'i leihau'n sylweddol, gan arwain at god lliw sylfaenol y cedwir ato'n llac.
- Yn gyffredinol, mae wisg ysgol yn golygu bod pob myfyriwr, dim ots beth yw eu statws economaidd-gymdeithasol, yn cael ei osod ar faes chwarae gwastad, â'r newid hwn mae posibilrwydd y gallai fod anghyfartalwch ymhlith disgyblion.

Gall arbed ar gost effeithio ar ansawdd, a mewn gwirionedd gallai gostio llawer mwy yn y pen draw!

- Bydd rhieni'n fwy tebygol o ddewis wisgoedd ysgol am bris isel gan siopau'r stryd fawr ac archfarchnadoedd, ond yn aml gall prisiau is arwain at ansawdd is, felly bydd angen eu hamnewid yn amlach, ac o ganlyniad bydd rhaid gwario mwy o arian.

Yr effaith ar ddisgyblion

- Mae wisg ysgol o ansawdd da yn meithrin ymdeimlad o falchder a pherthyn o fewn corff myfyriwyr, sy'n hyrwyddo cynhyrchiant a chanolbwyntio yn yr ystafell ddosbarth.
- Mae wisg ysgol gytbwys iawn yn uno disgyblion yn yr un modd ag y mae'n dod â thimau chwaraeon a chwmnïau at ei gilydd, maent yn edrych yn smart tra'n cynrychioli'r ysgol â logo hawdd ei adnabod,

Symud i fwrdd o ddiwylliant gwastraffus - mae cynaliadwyedd yn allweddol

- Gall wisgoedd ysgol rhad fod yn fwy niweidiol i'r amgylchedd gan fod angen eu hamnewid yn amlach - gan fwydo i mewn i ddiwylliant o 'ffasiwn gyflym'.

Mwy o bwysau ar y stryd fawr

- Bydd y rheoliad newydd hwn yn ychwanegu ymhellach at y pwysau ar y stryd fawr, gallai siopau wynebu mwy o straen a chystadleuaeth ddigyffelyb, gan adael rhai i roi'r gorau i fasnachu'n amhenodol, gan effeithio ar swyddi a bywydau yng Nghymru.

Mae arnom angen eich cefnogaeth

- Pe byddai cynigion ar gyfer canllawiau synhwyrol, cytbwys ar gyfer wisg ysgol yn cael eu cyflwyno, byddai The Schoolwear Association yn gefnogol, byddem yn edrych i weithio â Llywodraeth Cymru i helpu i gynhyrchu canllawiau cadarnhaol er mwyn cyflawni canlyniad gwell.

Mae The Schoolwear Association yn ceisio'ch cefnogaeth a dyma'ch cyfle i roi eich barn. Dim ond trwy gymryd rhan yn y drafodaeth y gallwn ni sicrhau bod y broses hon mor deg ag y gall fod i bawb sy'n gysylltiedig.

Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar **21ain Chwefror 2019**.

Gallwch ddarllen y newidiadau arfaethedig yma:

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-11/canllawiau-statudol-drafft-ar-gyfer-cyrrff-llywodraethu-ysgolion-ar-bolisiau-gwisg-ysgol-ac-edrychiad-disgyblion-1.pdf>.